



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales**

Arweiniad i'r Warchodfa
Reserve Guide



Gwarchodfa Natur Genedlaethol **Craig Cerrig Gleisiad a Fan Frynych**

National Nature Reserve

// Lle gwyllt a chreigiog gyda goroeswyr arctig
A wild and craggy place with arctic survivors



www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government





Lle gwyllt a chreigiog sy'n gartref i oroeswyr arctig

Ar ôl ychydig gannoedd o fetrau o'r A470 brysur, byddwch chi wedi eich amgylchynu mewn amffitheatr gysgodol, yn llawn o awyrgylch, a grëir gan greigiau tal gwyllt Craig Cerrig Gleisiad. Rhostir uchel, agored Fan Frynych sydd yn rhannu'r ardal hon oddi wrth len arall o graig yr un mor drawiadol yng Nghraig Cwm Du.

Rhewlifoedd sydd wedi naddu'r dirwedd anarferol hon. Mae'r llethrau creigiog serth, y cefnennau siarp a'r creigiau'n gartref i blanhigion arctig-alpaidd prin, yn eu lleoliad mwyaf deheuol yn y DU yma, ac ni welir eu tebyg eto tan yr Alpau. Oherwydd bod ffermwyr wedi pori llai o anifeiliaid yn yr ardaloedd hyn yn draddodiadol, mae llawer mwy o amrywiaeth o flodau gwyllt yma o'i gymharu ag ardaloedd cyfagos y parc cenedlaethol.

Nid yn hollol wyllt

Dengys olion archeolegol a ddarganfuwyd yn y warchodfa fod yr ardal wedi bod yn gartref i bobl am filoedd o flynyddoedd. Heblaw am gytiau o'r Oes Haearn, mae yma olion ffordd Rufeinig a sawl fferm fwy diweddar.



Craig Cerrig Gleisiad

A wild and craggy place that's home to some arctic survivors

In just a few hundred metres from the busy A470 you will find yourself enclosed within in a shady, atmospheric amphitheatre created by the soaring, craggy cliffs of Craig Cerrig Gleisiad. The lofty, exposed moorlands of Fan Frynych separate this area from a second, equally spectacular curtain of cliffs at Craig Cwm Du.

Glaciers carved out this unusual landscape. The steep rocky slopes, sharp escarpments and crags are home to rare arctic-alpine plants at their southernmost location in the UK and not found again until the Alps. A history of lower levels of grazing has resulted in a richer variety of wildflowers in the reserve compared with surrounding areas of the national park.

Not entirely wild

Archaeological remains found on the reserve show that the area has been inhabited for many thousands of years. Apart from Iron Age huts there are also the remains of a Roman road and later farm settlements.

Pryd yw'r amser gorau i ymweld?

Mae tirwedd wyllt Craig Cerrig Gleisiad a Fan Frynych yn werth ei weld ar unrhyw adeg o'r flwyddyn ond ym mis Awst a mis Medi daw'r bryniau'n fyw â phorffor y grug.

Mae'r amser rhwng dechrau'r gwanwyn a chanol haf yn gyfnod gwych i weld dewis rhyfeddol y warchodfa o flodau gwyllt, ynghyd â'r bywyd adar gan gynnwys yr hebog tramor, cudyll coch, grugiar goch a mwyalchen y mynydd prin.



hebog tramor Cadwch lygad am yr ysglyfaethwr chwim hwn yn saethu i lawr y clogwyni.


peregrine falcon

Look out for this agile predator hurtling down the cliffs.

When is the best time to visit?

The wild landscape of Craig Cerrig Gleisiad a Fan Frynych is worth a visit at any time of the year, but in August and September the hillsides come alive with the glow of heather.

Early spring to mid-summer is a great time to see the reserve's spectacular range of wildflowers and also its birdlife including peregrines, kestrel, red grouse and rare ring ouzels.



Allwedd / Map Key

-  parcio parking
-  ffin y warchodfa GNG NNR reserve boundary
-  llwybr cyhoeddus public footpath
-  llwybr caniatool permissive path
-  ffordd a ddefnyddir fel llwybr cyhoeddus (RUPP) road used as a public path (RUPP)
-  Ffordd y Bannau Beacons Way
-  Llwybr Cerrig Gleisiad Bluestone walk
-  Llwybr dan y Clogwyn Under the Cliff walk



© Andre Treppe

mwyalchen y mynydd

Dyma'r man gorau mae'n debyg yn y Bannau i ddod o hyd i 'aderyn du'r mynydd' prin o Affrica, sy'n ymweld yn yr haf. Mae'n hoffi clogwyni creigiog lle mae'n bwydo ar bryfed genwair, pryfed ac aeron.

ring ouzel This is just about the best place in the Beacons to find this rare summer-visiting 'mountain blackbird' from Africa. It loves craggy cliffs where it forages on worms, insects, and berries.

Beth allwch chi ei wneud yng Nghraig Cerrig Gleisiad?

Beth am roi cynnig ar ein llwybrau arwyddbost, i gael blas ar y warchodfa? I'r rheiny sy'n gallu darllen map ac a hoffai fynd am dro hirach, ceir llwybrau sy'n arwain i fyny i lwyfandir Fan Frynych a throsodd i Graig Cwm Du.

Ceir safle picnic gerllaw wrth ochr y gilfan. Mae toiledau a chaffi ar gael yng Nghanolfan Ymwelwyr Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn Libanus (LD3 8ER) sydd ond ychydig o daith i ffwrdd mewn car. Ffoniwch 01874 623366 i gael gwybod yr oriau agor.



LLWYBR CERRIG GLEISIAD

Gradd: Anodd

Pellter: 2¼m/3.5km

Amser: 1½ awr

Dringo: 860tr/260m

Uchafbwyntiau:

Mae'r llwybr cylchol hwn yn rhoi blas eithriadol i chi o uchelfannau creigog Craig Cerrig Gleisiad o bell ac agos. Gallwch ddewis mynd ar gangen i'r gorllewin ac ymuno â llwybrau i'r gogledd i bwynt trig Fan Frynych, neu tua'r de i'r creigiau a llwybr hir 95 milltir (152km) Ffordd y Bannau (i ddarllenwyr map)



LLWYBR DAN Y CLOGWYN

Gradd: Cymedrol


Pellter: 1½m/2.5km

Amser: 1 awr

Dringo: 400tr/120m

Uchafbwyntiau:

Rhowch gynnig ar y llwybr unffordd hwn i droed llethrau creigiog Craig Cerrig Gleisiad ac yn ôl er mwyn gweld mawredd y dirwedd.



What can you do at Craig Cerrig Gleisiad?

Why not try our waymarked walks to get a flavour of the reserve? For map-readers wanting a longer walk there are paths that lead upwards to the plateau of Fan Frynych and across to Craig Cwm Du.

There is a picnic site nearby along the layby. Toilets and a café are available just a short drive away at the Brecon Beacon's National Park Visitor Centre in Libanus (LD3 8ER). Check opening times on 01874 623366.



BLUESTONE WALK

Grade: Difficult

Distance: 2¼m/3.5km

Time: 1½ hours

Climb: 860ft/260m

Highlights:

You get a great feel for the craggy heights of Craig Cerrig Gleisiad from both near and far on this circular route. An optional spur west joins with paths north towards Fan Frynych's trig point or south to the cliffs and the Beacons Way 95 mile (152km) long-distance walk (for map-readers)



UNDER THE CLIFF WALK

Grade: Moderate

Distance: 1½m/2.5km

Time: 1 hour

Climb: 400ft/120m


Highlights: Try this linear walk to the base of the rocky slopes of Craig Gleisiad and back to experience the majesty of this landscape.



Rhewlif a thirlithriad yn creu tirwedd ddramatig

Rhewlif a gerfiodd y cwm hwn yn ystod yr oes iâ ddiwethaf. Wrth i'r iâ doddi, tua 18,000 o flynyddoedd yn ôl, daeth wal greigiog serth Craig Cerrig Gleisiad i'r golwg.

- A** Rhywbryd wedi hynny syrthiodd miliynau o dunelli o graig o'r creigiau hyn i lawr y llethrau o ganlyniad i dirlithriad trychinebus. Gallwch weld y craciau tyndra yng nghreigwely'r rhan hon o'r creigiau o hyd ('A' ar y map).
- B** Mae hi'n dal yn amlwg mor fawr oedd y tirlithriad hwn ar ffurf y llethr serth a welwch chi uwchlaw'r A470 a llethrau serth dwy nant fwy diweddar.
- C** Hyd at 11,500 o flynyddoedd yn ôl, roedd rhewlif dipyn llai o faint yng nghefn y pant hwn, a adawodd gyfres o gefnennau o greigiau a sbwriel, a'r enw arnynt yw 'marian'.
- D** Pant rhewlifol - bellach yn gors.







Allwedd / Map Key

-  parcio
parking
-  ffin y warchodfa GNG
NNR reserve boundary
-  llwybr cyhoeddus
public footpath
-  llwybr caniataol
permissive path
-  rhybudd! - clogwyni serth
danger! - steep cliffs
-  ffordd a ddefnyddir
fel llwybr cyhoeddus (RUPP)
road used as a public
path (RUPP)
-  Ffordd y Bannau
Beacons Way
-  Llwybr Cerrig Gleisiad
Bluestone walk
-  Llwybr dan y Clogwyn
Under the Cliff walk

Glacier and landslide create this dramatic landscape


A glacier carved out this valley during the last ice age. As it melted, about 18,000 years ago, it exposed the steep rock walls of Craig Cerrig Gleisiad.

-  **A** Sometimes later a catastrophic landslide cascaded millions of tonnes of rock from these crags down the slopes. You can still see tension cracks in the bedrock in this part of the Crag ('A' on the map).
-  **B** The extent of this landslide is still visible as the steep bank you can see just above the A470 and the steep banks of two more recent streams.
-  **C** Up until 11,500 years ago a smaller glacier occupied the back of the hollow, leaving a series of small ridges of rocks and debris called 'moraines'.
-  **D** Glacier hollow - now a bog.

Beth allwch chi ei wneud yng Nghwm Du?

Gallwch gerdded i fyny Cwm Du a chadw llygad i weld y pabi melyn prin ym mis Mehefin / Gorffennaf, a bwrw ymlaen i Fan Frynych a'r golygfeydd ysgubol a geir oddi yno. (Gweler map ar dudalenau 4-5)

Cwm Du



'Crognant' yn llawn o'r pabi

Mae Cwm Du yn 'grognant' a ffurfiwyd gan rewlif – sef cwm bach llai o faint sy'n 'crogi' neu'n hongian uwchlaw'r prif gwm siâp-u – yn nodwedd anarferol ym Mannau Brycheiniog.

A poppy-filled 'hanging valley'

Cwm Du is a glacially formed "hanging valley" – a smaller side valley left 'hanging' above the main u-shaped valley – and an unusual feature in the Brecon Beacons.

What can you do in Cwm Du?

Walk up Cwm Du and look out for its rare yellow poppies in June/July and carry on up to Fan Frynych and its spectacular views. (See map on pages 4-5)



pabi melyn

Mae'r gwir babi Cymreig gwyllt yn blanhigyn digon prin ond mae'n ffynnu ar hyd creigiau a glannau nentydd Cwm Du.

yellow poppy

The true wild Welsh poppy is an uncommon plant but thrives in Cwm Du on the cliffs and stream banks.





Coedwig 'fertigol' yn gartref i blanhigion arctig

Ceir dros 500 math gwahanol o blanhigion yma gan gynnwys tua 100 o rywogaethau gwahanol o fwsoglau a llysiâu'r afu. Ond y gwir drysor yw'r blodau gwylltion arctig-alpaidd sy'n tyfu ar wynebau gogleddol y creigiau gwyllt. Yn eu plith y mae tormaen porffor, tormaen llydandroed, glesyn-y-gaeaf danheddog, a duegredynen werdd.

Ymhlith y planhigion anghyffredin eraill sydd i'w gweld ar ysgafellau'r clogwyni mae'r clafrllys bach, arianllys bach, brwynen y goedwig fwyaf, a hyd yn oed briallu Mair a thegeirianau coch y gwanwyn sydd i'w gweld fel arfer mewn amodau mwynach. I bob pwrpas mae'r creigiau'n 'goedwig fertigol', sy'n cynnwys coed a llwyni'r ddraenen wen, criafol, ynn a cherddin gwyn prin. Mae grug a llus yn tyfu ar y llethrau a rhostiroedd uwchlaw.

duegredynen werdd

Mae hwn yn un o blanhigion Arctig-Alpaidd y warchodfa sydd i'w weld gan amlaf yn hinsoddau oer yr Arctig ac uchderau mawr yr Alpau.

green spleenwort

This is one of the reserve's Arctic-Alpine plants usually found in the cold climates of the Arctic and the great heights of the Alps.



'Vertical' woodland supports arctic plants

There are more than 500 types of plant here including about 100 different mosses and liverworts. The prize, however, goes to the arctic-alpine wildflowers that grow on the north-facing rocky cliffs. They include purple saxifrage, mossy saxifrage, serrated wintergreen and green spleenwort.

Other uncommon plants found on cliff ledges include small scabious, lesser meadow rue, greater woodrush, and even cowslips and early purple orchids normally found in gentler conditions. The cliffs are, in effect, a 'vertical woodland' with trees and shrubs of hawthorn, rowan, ash and rare whitebeams. Heather and bilberry grow on the slopes and moorlands above.



tormaen porffor

Fel arfer yn blodeuo rhwng mis Mawrth a mis Ebrill, mae'r tormaen porffor a phlanhigion Arctig-Alpadd eraill yn aml yn tyfu mewn matiau neu 'clustogau', ac wedi addasu'n dda i oroesi'r hinsawdd garw ar y clogwyni hyn.

purple saxifrage

Usually flowering between March and April, the purple saxifrage and other Arctic-Alpine plants often grow in mats or 'cushions', and are well adapted to survive in the harsh climate on these cliffs.




ER DIOGELWCH I CHI:

- Creigiau peryglus a llethrau sgri – peidiwch â'u dringo – gwisgwch esgidiau addas a byddwch yn ofalus dros ben.
- Gall y tywydd newid yn sydyn – gwnewch yn siŵr eich bod yn cario dillad ac offer addas. Dylai cerddwyr wisgo esgidiau addas a bod yn ofalus.
- Rhwng mis Mai a mis Hydref mae gwartheg a defaid yn pori'r warchodfa, ac mae merlod mynydd yma drwy gydol y flwyddyn.
- Cadwch lygad craff ar eich cŵn, a'u rheoli'n dynn.
- Yn dibynnu ble ewch chi, mae yma sawl camfa a gatieu hefyd.



FOR YOUR SAFETY:

- Precipitous cliffs with scree slopes – don't climb – wear appropriate footwear and take extreme care.
- The weather can change rapidly – always carry appropriate clothing and equipment Walkers should wear appropriate footwear and take care.
- Between May and October the reserve is grazed by cattle and sheep and year-round by mountain ponies.
- Please keep dogs under close control.
- Depending on where you walk, there are also a number of stiles and gates.



Cyfarwyddiadau: Y man cychwyn gorau ar gyfer Craig Cerrig Gleisiad yw o gulfan fawr sydd wedi'i leoli saith milltir i'r de-orllewin o Aberhonddu a dwy filltir i'r gogledd o Storey Arms ar yr A470 - cadwch lygad am arwydd y warchodfa. Mae bysiau Merthyr i Aberhonddu yn stopio gerllaw. Cyfeirnod Grid: SN 971 222

Directions: The best starting point for Craig Cerrig Gleisiad is from a large lay-by some seven miles southwest of Brecon and two miles north of the Storey Arms on the A470 - look for the reserve sign. Buses on the Merthyr to Brecon route stop nearby. Grid reference: SN 971 222

0300 065 3000

www.cyfoethnaturiol.cymru

www.naturalresources.wales

Os hoffech yr wybodaeth hon mewn fformat arall, cysylltwch â ni: Ffôn: 0300 065 3000
Ebost: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

If you would like this information in an alternative format, please contact us: Phone: 0300 065 3000
Email: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk



Cymdeithas Cenhedloedd Unedig Addysg Gwyddoniaeth a Diwylliant

United Nations Educational, Scientific and Cultural Organization



Fforest Fawr Geoparc UNESCO byd-eang

Fforest Fawr UNESCO Global Geopark